

**MOLD TOWN COUNCIL
CYNGOR TREF YR WYDDGRUG**

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804



www.moldtowncouncil.org.uk

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

22nd Ebrill 2021

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Gofynnir ichi fynychu cyfarfod Cyngor Tref Yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm** ar **ddydd Mercher 28 Ebrill, 2021** trwy gyfrwng fideo-gynadledda Zoom.

Yn ddiffuant,

Y Clerc a Swyddog Cyllid

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O FUDD

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd y gwyddys amdanynt mewn eitemau ar yr agenda

3. CYHOEDDIADAU'R MAER

4. COFNODION

4.1 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, Gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2021 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2021 (ynghlwm)

4.2 Derbyn a nodi Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021 (ynghlwm)

4.3 Derbyn a nodi Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymuned, Datblygu ac Adfywio a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2021 (ynghlwm)

5. CYDADRODDIAD Y SWYDDOGION BUSNES AC ADFYWIO / DIGWYDDIADAU AC YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Derbyn cydadroddiad y Swyddogion ar y datblygiadau diweddaraf (ynghlwm)

6. Y PWYLLGOR DATBLYGU CYMUNED, DATBLYGU AC ADFYWIO

Derbyn argymhellion y Pwyllgor Cymuned, Datblygu ac Adfywio mewn perthynas â'i dyfodol a Chylch Gorchwyl

Fel a ganlyn:-

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor Tref yn cael ei argymhell:

- (1) I gadw'r Pwyllgor Cymuned, Datblygu ac Adfywio;
- (2) Ail-archwilio ac ail-ddrafftio Cylch Gorchwyl mwy cryno ac eglur ar gyfer y Pwyllgor; a
- (3) Bod is-grwp bach o 3 i 4 Aelod yn cymryd rhan i gyflawni'r broses hon.

Gweler eitem 4.3 uchod

7. ENWEBIAD AR GYFER ETHOL MAER

Ystyried enwebiad Maer yn y Cyfarfod Blynyddol i'w gynnal ar 12 Mai 2021 ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig sydd i ddod

8. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR BŴER AWDURDODAU LLEOL I FASNACHU

Ystyried ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Masnachol) (Amodau) (Cymru) drafft a'r cynnig y dylai Cynghorau Cymuned sy'n bodloni meini prawf penodol gael pŵer i fasnachu (dogfennaeth ynghlwm)

9. CRONFA ECONOMI GYLCHOL ADFERIAD GWYRDD

Derbyn adroddiad Derbyn adroddiad diweddarau'r Swyddog Busnes ac Adfywio ar syniadau a dderbyniwyd gan Aelodau yn unol â'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth.

10. HYSBYSIAD CYCHWYNNOL CYNLLUN CHWARAE HAF CYNGOR SIR Y FFLINT 2021

Nodi bod Cyngor Sir y Fflint wedi crybwyll bod ganddo'r mandad yn swyddogol, yn genedlaethol ac yn lleol i ddarparu gwasanaethau chwarae. Byddai hyn yn cynnwys rhaglen cynllun chwarae'r haf sirol ar gyfer 2021.

11. MYNEDIAD CYHOEDDUS I GEFN Y LLEW COCH YN STRYD WRECSAM

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan na dderbyniwyd ymateb i lythyr y Cynghorydd Collett ar y mater hwn

12. HYSBYSIAD YNGHYLCH Y PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Ystyried yr adroddiad atodedig

13. CYFARFODYDD A FYNYCHWYD

Er mwyn i Aelodau roi adroddiad ysgrifenedig i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth y maent wedi ei chael gan gyrff allanol

14. CYFRIFON / TALIADAU

Cymeradwyo'r drefnlen atodedig sy'n dangos y cyfrifon y gwnaed trefniadau i'w talu – Mis 12 gan nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau cynghorau lleol

15. PROSIECT BRYN Y BEILI, Y PORTHDY A'R YSTAFELL GYMUNEDOL

Ystyried yr adroddiad gan Swyddog Bryn y Beili ar y datblygiadau diweddaraf gan gynnwys trosglwyddo'r adeilad

16. GWAHARDD Y CYHOEDD A'R WASG

Ystyried gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod oherwydd natur cydgyfrinachol yr eitem olaf o fusnes

RHAN 2

17. PENODI CONTRACTWR I GYFLAWNI TREFNIADAU BASGEDI CROG Y CYNGOR

Ystyried yr adroddiad atodedig.

SYLWCH:

Caiff aelodau'r wasg a'r cyhoedd wyllo'r cyfarfod hwn ar y sgrin (ond ni chânt gymryd rhan) trwy drefniant ymlaen llaw gyda Chlerc a Swyddog Cyllid y Dref.